Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Protocol Datrys yn Lleol

Mabwysiadwyd 3 Mai 2013
Dyddiad Adolygu: 2014

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

PROTOCOL DATRYS YN LLEOL

PROTOCOL HUNANREOLEIDDIO'R AELODAU

1. Egwyddorion Cyffredinol

- Hybu safonau ymddygiad uchel fel modd i gryfhau parch ac ymddiriedaeth ymhlith yr aelodau. NID yw wedi'i fwriadu i ddisodli'r Cod Ymddygiad; yn hytrach, mae wedi'i fwriadu i fodoli ochr yn ochr â'r Cod. Mae'n darparu mecanwaith i'r Awdurdod ymdrin ag ymddygiad gan Aelod yn erbyn Aelod arall nad yw o bosibl yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad gan yr Ombwdsmon, fel bod yr Awdurdod yn gallu ymdrin ag ef yn fewnol.

- Nid yw'r protocol yn disodli'r Protocol ar gyfer Cysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion a nodir yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod.

- Bydd aelodau'n gwneud pob ymgais rhesymol i ddatrys anghydfodau trwy brosesau mewnol cytunedig yn amodol ar eu rhwymedigaethau dan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

- Bydd atgyfeirio at gyrff rheoleiddio allanol yn dod yn ddewis olaf yn amodol ar rwymedigaethau'r Aelodau dan y Cod Ymddygiad.

- Bydd Aelodau'n osgoi unrhyw gyfwynebiad personol mewn unrhyw fforwm cyhoeddus, yn enwedig cyfarfodydd pwyllgorau a thrwy'r cyfryngau.

- Ni fydd yr ymrwymiadau hyn yn rhwystro dadleuon gwleidyddol na gwaith craffu dilys.

- Bydd disgyblaeth Aelodau'n dod yn gonglfaen hunanreoleiddio gyda'r Cadeirydd yn cymryd cyfrifoldeb am Aelodau.

- Bydd Aelodau'n ymrwymo i hyfforddiant a datblygiad i ategu'r protocol hwn.

2. Gweithio i osgoi problemau

Er mwyn lleihau i'r eithaf y tramgwyddau honedig mae'r Aelodau'n ymrwymo i fynychu digwyddiadau hyfforddi perthnasol ar gyfer Aelodau – yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad neu gyrsiau gonestrwydd o fewn cwmpas eu rôl.

3. Rôl y Cadeirydd

Bydd cwyn gan Aelod ynghylch ymddygiad Aelod arall yn cael ei hatgyfeirio at y Cadeirydd i ddechrau, naill ai gan y Swyddog Monitro (os cyflëwyd y gŵyn iddo ef neu iddi hi) neu at y Cadeirydd yn uniongyrchol gan yr Aelod sy'n cyfleu'r gŵyn.

Ar ôl derbyn cwyn, rôl y Cadeirydd yw cymryd cyfrifoldeb am ymdrin â'r gŵyn a sicrhau disgyblaeth ymhlith Aelodau o ran eu hymddygiad tuag at Aelodau eraill. Dylai disgyblaeth fod yn anffurfiol a dylai'r mater gael ei ddatrys trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd angen i'r Cadeirydd gadw rhai cofnodion ond ni fydd y broses yn gyforiog o ddogfennau. Dylai'r pwyslais fod ar hyfforddiant, addysg, cyfryngu a chymodi.

Pan fo'n briodol, gellir defnyddio sancsiwn megis tynnu oddi ar bwyllgor neu gorff allanol. Mewn achosion eithafol neu ar ôl tramgwyddau parhaus bydd y mater yn cael ei atgyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cyn gosod unrhyw sancsiwn neu fynnu bod yr Aelod yn cael hyfforddiant, dylai'r Cadeirydd geisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Safonau a fydd yn ceisio sicrhau tegwch a chysondeb o ran y sancsiynau a osodir dan y protocol hwn.

Lle mae'r gŵyn yn ymwneud â'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd ddylai ystyried y gŵyn.

4. Tramgwyddau Parhaus a Difrifol

Yn achos tramgwyddau cyson, neu feysydd lle mae gan y Cadeirydd bryderon bod ymddygiad aelod neu aelodau unigol yn niweidio cysylltiadau rhwng Aelodau neu enw da'r Awdurdod, yna bydd y Cadeirydd yn cwrdd â'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro i gytuno ar ffordd ymlaen. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i atgyfeiriadau at yr Ombwdsmon, gan y Cadeirydd, am dramgwyddau lefel isel parhaus.

5. Y Pwyllgor Safonau

- Gan ystyried materion posibl o ran gwrthdaro, ni fydd unrhyw ymwneud yn cynnwys mwy nag un aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau. Bydd hyn yn digwydd mewn cylchdro ac yn unol ag argaeledd.

- Bydd Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cefnogi/cynghori'r Cadeirydd. Bydd y broses yn cael ei chychwyn ar gais y Cadeirydd, mewn achos arbennig.

- Bydd cyfarfodydd o'r fath yn breifat ac yn anffurfiol.

- Bydd unrhyw ddogfennaeth, nodiadau presenoldeb, nodiadau ffeil neu nodiadau cynghori a drosglwyddir rhwng y Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael eu cadw'n breifat ac yn gyfrinachol.

Bydd y protocol hwn yn cael ei adolygu erbyn mis Mai 2014.

SIART LLIF AR GYFER CWYN GAN UN AELOD YN ERBYN AELOD ARALL



TRAMGWYDDAU PARHAUS: BYDD Y CADEIRYDD YN CWRDD Â'R PRIF WEITHREDWR A'R SWYDDOG MONITRO I GYTUNO AR FFORDD YMLAEN. BYDD YSTYRIAETH YN CAEL EI RHOI I ATGYFEIRIADAU AT YR OMBWDSMON, GAN Y CADEIRYDD, AM DRAMGWYDDAU LEFEL ISEL PARHAUS.